

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin*

### *Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r traethawd hir yn adeiladu ar ddysgu blaenorol y myfyrwyr o Gam 1 a 2 MA Addysg (y llwybr Ieithyddiaeth Gymhwysol) drwy ehangu eu sgiliau cynllunio ymchwil empiraidd. Yn ogystal â rhoi cipolwg ar natur ymchwil ieithyddiaeth gymhwysol mewn cyd-destunau addysgol, ymagweddau methodolegol, moeseg a'r gydberthynas rhwng yr ymchwilydd a'r cyfranogwr, mae'r modiwl hefyd yn rhoi'r adnoddau i fyfyrwyr archwilio a myfyrto ar eu hymarfer eu hunain a'u cysyniadau am ymchwil a phwnc ymchwil o'u dewis.

Mae'r modiwl yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr gynnal astudiaeth empiraidd ar raddfa fach mewn cyd-destun addysgu anffurfiol neu ffurfiol sy'n cyfrannu at eu dealltwriaeth o rôl iaith wrth addysgu a dysgu, a ffyrdd o gefnogi a/neu feithrin y ddealltwriaeth honno. Dewisir pwnc astudiaeth ymchwil y myfyrwyr mewn ymgynghoriad â'u tiwtor, a rhaid iddo fod o fewn cwrpas ymarferol y rhaglen gradd MA Addysg.

Ar ôl cwblhau'r modiwl, bydd y myfyrwyr yn meddu ar gymhwyster y mae galw cynyddol amdano er mwyn cael mynediad i wahanol broffesiynau sy'n gysylltiedig ag iaith neu gael dyrchafiad yn y proffesiynau hynny, a byddant hefyd mewn sefyllfa i fynd ymlaen i astudio ar lefel ôl-raddedig (rhaglenni Doethuriaeth mewn Addysg/PhD).

### *Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd meistyr neu uwch mewn ieithyddiaeth gymhwysol, iaith ac addysg neu faes cysylltiedig
- dealltwriaeth dda o ymagweddau cymdeithasol at iaith, dysgu ac addysgu, a allai gynnwys disgrifio iaith, ieithyddiaeth swyddogaethol systemig, ieithyddiaeth corpws, ymagweddau diwylliannol-gymdeithasol ac ethnograffeg
- profiad o ddadansoddi iaith mewn cyd-destunau gwahanol
- rhywfaint o wybodaeth ymarferol am arferion addysgu iaith cyfredol yn un neu ragor o'r meysydd canlynol: Astudiaethau iaith a llythrennedd, ieithoedd modern, Saesneg fel ail iaith, Saesneg at ddibenion academiaidd, Saesneg fel iaith ychwanegol, Saesneg fel iaith dramor, Saesneg fel cyfrwng addysgu a dysgu
- y gallu amlwg i diwtora myfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd ieithyddol a diwylliannol, na fydd Saesneg yn iaith gyntaf i gyfran ohonynt, ac i feithrin llythrennedd academiaidd myfyrwyr a datblygu arferion academiaidd da
- lefel uchel o arbenigedd ym maes cyfrifiadura, gan gynnwys gwyboeth am y modd y defnyddir technoleg mewn cyd-destunau iaith, dysgu ac addysgu, a'r gallu i diwtora ar-lein gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau ar-lein
- y gallu i ddefnyddio llwyfannau cydamseredig ac anghydamseredig wrth diwtora ar-lein

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- gradd ddoethurol mewn ieithyddiaeth gymhwysol, iaith ac addysg neu faes cysylltiedig
- profiad diweddar o addysgu mewn sefydliad addysg uwch

- profiad o addysgu ar-lein ac o bell
- profiad o wneud gwaith ymchwil ym maes ieithyddiaeth gymhwysol neu addysg

*Gwybodaeth ychwanegol*

- mae'r modiwl hwn ar gael i'w astudio ledled y byd. Caiff ei diwtora yn gyfan gwbl ar-lein gan ddefnyddio fforymau ar-lein
- un o'ch prif rolau fydd goruchwyllo'r myfyrwyr wrth gynllunio a chynnal eu prosiectau ymchwil ar raddfa fach eu hunain
- ymhlith y tasgau eraill bydd marcio aseiniadau a chymedroli fforymau grŵp tiwtor, annog y myfyrwyr i gymryd rhan, cydweithio, a chynnal amgylchedd gwaith da

*Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan*

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	12
Band cyflog:	7
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4